Royal Society for Blind Children

# Teuluoedd yn Gyntaf

## Cefnogi lles emosiynol plant a phobl ifanc (0 i 25 oed) â nam ar eu golwg a'u teuluoedd.

Gall diagnosis o nam ar y golwg fod yn heriol i'r teulu cyfan. Gall y goblygiadau fod yn amrywiol ac yn sylweddol, ac efallai y bydd llawer o deuluoedd eisiau cael rhywfaint o gymorth i'w helpu i ymdopi.

Rydyn ni yma i helpu. Mae gan RSBC dîm profiadol o Ymarferwyr Teulu ledled Cymru sy'n cynnig cymorth yn seiliedig ar anghenion pob teulu.

Gellir cael cymorth pan mae ei angen and gall fod yn arbennig o ddefnyddiol mewn cyfnodau o newid. Gallai'r rhain gynnwys wrth gael diagnosis, dirywiad yn y golwg, newid ysgol, newidiadau o fewn y teulu, neu ymdopi â'r newid i fod yn oedolyn.

### Gall teuluoedd a gweithwyr proffesiynol gyfeirio gan ddefnyddio'r



Life Without Limits For Blind Children

[www.rsbc.org.uk/families](www.rsbc.org.uk/families)

020 3198 0225

connections@rsbc.org.uk

Rhif elusen gofrestredig: 307892

## Beth rydym yn ei wneud

- Cefnogaeth Emosiynol
- Sesiynau un i un teilwredig
- Ymyriadau therapiwtig
- Cyfeirio at wasanaethau eraill
- Gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill

## Sut rydym yn gwneud hyn

- Dros y ff ôn
- Galwadau fideo
- Wyneb yn wyneb
- Gartref
- Yn yr ysgol

“Roedd y gwahaniaeth yn y teulu yn dilyn eich cyfraniad chi yn anhygoel. Roedden nhw’n frwd iawn eu canmoliaeth ohonoch chi ac yn methu diolch digon am yr effaith gadarnhaol rydych chi wedi’i chael ar eu bywyd teuluol.”

**– ECLO**

“Diolch i chi am eich cefnogaeth, mae wedi bod yn anhygoel ! Rydw i’n teimlo’n llai pryderus ac yn llawer hapusach! Rydw i’n falch bod gen i rywun i droi ato pan fydd pethau’n anodd.”

**– Person Ifanc**



“Rydyn ni mor falch o weld yr holl hapusrwydd a phositifrwydd. Dydi’r ysgol ddim yn gallu credu’r gwahaniaeth! Mae B wedi caru pob sesiwn gyda chi ac rydyn ni mor ddiolchgar am bopeth rydych chi wedi’i wneud drosto.”

**- Rhiant**

CRONFA GYMUNEDOL COMMUNITY FUND